# Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru

## Ymateb Chwarae Teg i'r Ymgynghoriad

**Ionawr 2012**

*Cyflwyniad*

**Cyflwyniad**

Mae **Chwarae Teg**, a sefydlwyd ym 1992, yn hyrwyddo, cefnogi a datblygu rôl menywod yn economi Cymru. Rydym yn gwneud hyn trwy godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad cadarnhaol mae menywod yn ei wneud at yr economi a sicrhau bod strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn ystyriol o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod sydd am gyfrannu'n llawn yn y farchnad lafur. Rydym yn sefydliad bach, elusennol sydd â hanes hir o ddarparu prosiectau a ariennir yn Ewropeaidd gyda chanlyniadau rhagorol.

Mae ein prosiect cyfredol, **CENEDL HYBLYG: Ffyrdd Newydd o Weithio yn yr Unfed Ganrif ar Hugain** [1] yn enghraifft dda o brosiect sydd wedi manteisio ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth. Mae'r prosiect Cenedl Hyblyg yn darparu hyfforddiant pwrpasol, achrededig ym

---

[1] *Ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-2014*

maes i helpu menywod i fynd ymlaen i swyddi arwain. Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr, asiantaethau cyfeirio a darparwyr hyfforddiant i gefnogi datblygiad rhaglenni hyfforddi a chyflogaeth sy'n ystyriol o'r rhywiau.

Mae'r annibyniaeth a'r diogelwch ariannol cynyddol y mae'r ymyriadau hyn yn eu sicrhau i fenywod yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod y Comisiwn Ewropeaidd o sicrhau twf call, cynaliadwy a chynhwysol sy'n allweddol i gael y DU o'r argyfwng economaidd ac yn gonglfaen wrth fynd i'r afael â thlodi. Mae gweithgarwch economaidd menywod o fudd i deuluoedd gan ei fod yn cynyddu lles yn gyffredinol ac yn hybu dyheadau ymysg plant.

Yn yr ymateb hwn rydym yn manteisio ar y cyfle i ymateb ar lefel gyffredinol a hefyd ar faterion lle mae gennym arbenigedd a dealltwriaeth benodol.

## *Ymateb i'r Ymgynghoriad*

**1. I ba raddau rydych yn ystyried bod y Rhaglenni Cydgyfeiriant a'r Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013 wedi cyflawni – neu yn cyflawni – yr amcanion ar eu cyfer?**

Dengys ffigurau bod yr ONS wedi cofnodi cynnydd yng Ngwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Cymru y pen am y tro cyntaf yn 2009/10. Fodd bynnag, Cymru sydd â'r GYC y pen isaf ymysg yr holl wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, sef £45.5 biliwn. Er y buddsoddi yn y Gorllewin a'r Cymoedd, mae gan yr ardal hon y GYC y pen isaf o holl ranbarthau NUTS 2 y DU. Yn wir, mae GYC Cymru y pen wedi gostwng o 67.4% i 62.8% o gyfartaledd y DU. Mae'r sefyllfa yn debyg yn y Dwyrain, wedi gostwng o 97.4% o gyfartaledd y DU ym 1997 i 91.4% yn 2009. Yn y bôn, nid yw'r weledigaeth o sicrhau ffyniant economaidd ym mhob rhan o Gymru wedi'i chyflawni. Ni ragwelodd y rhaglenni a'u hamcanion yr argyfwng economaidd byd-eang sydd wedi creu heriau sylweddol i sawl ardal gyda chau busnesau yn arwain at gynnydd mewn diweithdra. Bydd diwygio gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn arwain at golli swyddi yn y dyfodol.

Amlinellodd 'Cymru: Economi yn Ffynnu' weledigaeth o gynyddu cyflogaeth ac adfywio cymunedol drwy greu swyddi o ansawdd mewn sector preifat arloesol ac entrepreneuraidd. Nid yw'r hinsawdd economaidd wedi cynorthwyo ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nod hwn, ond, yn fwy na hynny, mae angen newid agweddau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae busnesau yn amharod i fabwysiadu arferion gwaith arloesol mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol ar gyfer twf cynhwysol. Mae datblygu economi sy'n ffynnu yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae Chwarae Teg yn credu y byddai newid diwylliannol sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio yn helpu Cymru i gyflawni hyn.

Drwy ein hamrywiaeth eang o brosiectau, mae Chwarae Teg wedi manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a ddarperir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i fynd i'r afael â chydraddoldeb rhywiol yn y gweithle. Mae ein prosiect cyfredol, Cenedl Hyblyg, yn cynorthwyo cyflogwyr i arloesi trwy ddefnyddio arferion gweithio'n hyblyg tra'n hyrwyddo cynhwysiant yn y gweithle - i gyd yng nghyd-destun cynyddu llwyddiant busnes.

**2. A gredwch fod y prosiectau amrywiol sy'n cael eu hariannu drwy gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yn rhoi gwerth am arian?**

Strategaeth Cymru ar gyfer y cylch hwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd oedd nodi prosiectau strategol a oedd yn cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Cymerwyd cryn amser i roi'r prosiectau mawr iawn hyn ar waith ac mae'n anodd gwybod a ydynt wedi cyflawni'r gwerth cyffredinol am arian a ragwelwyd neu a ydynt wedi cyflawni'r allbynnau sy'n ofynnol i fodloni'r Rhaglen Weithredol ar gyfer Cymru. Erbyn i'r gwerthusiadau prosiect terfynol fod ar gael, bydd hi'n rhy hwyr i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn y weithdrefn.

**3. A oes gennych bryderon ynghylch sut y defnyddir y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir? A oes gennych bryderon ynghylch defnyddio gwariant adrannol Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol? Pa effaith y credwch y mae toriadau yn y sector cyhoeddus wedi'i chael (ag y gallant ei chael) ar argaeledd arian cyfatebol y sector cyhoeddus**

Drwy sefydlu Cronfa Arian Cyfatebol a Dargedir (fel dewis ariannu i droi ato'n olaf), darparodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithgareddau hynny lle nad oedd ffynonellau ariannu ar gael fel arall. Mae Chwarae Teg yn enghraifft dda o Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir ar waith, gan ddarparu arian er mwyn gallu gweithredu prosiect Cenedl Hyblyg pan nad oedd unrhyw ffynhonnell ariannu arall ar gael. Nid oes gan Cydraddoldeb Rhywiol ei gyllideb adrannol ei hun yn Llywodraeth Cymru, ond mae'n perthyn i'r holl sefydliad ac yn cael ei ddiogelu yn Neddf Llywodraeth Cymru.

Yn y cylch nesaf o ariannu Strwythurol yr UE, hoffai Chwarae Teg weld mwy o ariannu ar y cyd ar lefel strategol yn y Llywodraeth er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ariannu prosiectau a rhaglenni allweddol yn uniongyrchol. Mewn rhannau eraill o Ewrop, ariannu ar y cyd gan Lywodraethau canolog yw'r unig ffordd y gellir darparu prosiectau pwysig.

Mae Chwarae Teg yn ymwybodol o gyfyngiadau arian cyfatebol yn y sector cyhoeddus. Fel nifer o noddwyr eraill, ni ragwelodd Llywodraeth Cymru yr argyfwng economaidd byd-eang pan gytunwyd ar y Rhaglen Weithredol ar gyfer y cylch hwn o

gronfeydd yr UE. Yn sgil pwysau ariannol, credwn y bydd arian cyfatebol hyd yn oed yn anoddach i'w sicrhau ac rydym am barhau i weld amser gwirfoddolwyr yn cael ei werthfawrogi a'i dderbyn fel ffordd o ddarparu arian cyfatebol yn y dyfodol.

**4. Pa mor effeithiol y bu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran monitro a gwerthuso effaith prosiectau?**

Byddai Chwarae Teg yn dadlau y dylid ystyried canlyniadau ansoddol a dylai hyn gynnwys y pellter a deithir gan gyfranogwyr. Gall fod yn anodd mesur canlyniadau yn ystod cyfnod y prosiect. Mae angen monitro a gwerthuso prosiectau yn yr hirdymor er mwyn mesur effaith buddsoddiad Ewropeaidd yn gywir.

**5. A oes gennych bryderon ynghylch y gallu i gynnal y gweithgareddau a'r gwaith a gyflawnir drwy brosiectau a ariennir yn ystod cylch cyfredol y cronfeydd strwythurol y tu hwnt i 2013?**

Mae cynnwys cynaliadwyedd yn her benodol y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hi. Mewn sawl achos, roedd prosiectau wedi'u cynllunio yng nghyd-destun y Cronfeydd Strwythurol oedd ar gael oherwydd absenoldeb arian o ffynonellau eraill. Ni all prosiectau barhau heb arian ac felly maent yn debygol o orffen pan fydd y cyfnod ariannu yn dirwyn i ben.

Mae Chwarae Teg yn credu y dylid ystyried y rheolau sy'n ymwneud â chynhyrchu incwm ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan yr UE. Er enghraifft, tra'n bod yn cydnabod ei bod hi'n amhriodol cynhyrchu incwm at ddibenion masnachol, byddai'n syniad ystyried datblygu incwm i gefnogi gweithgarwch cynaliadwy mewn elusennau a sefydliadau dielw i sicrhau canlyniadau dymunol y tu hwnt i dymor ariannu'r UE.

**6. Beth yw eich profiad chi o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd?**

**Prosiectau Chwarae Teg ers 2000**

| ***Prosiect*** | ***Gwerth*** |
|---|---|
| **Arian Ewropeaidd** | |
| *ERDF, Amcan Un – Menter Merched Cymru: annog entrepreneuriaeth benywaidd (2000-2006)* | *£3,982,560* |
| *ERDF, Amcan Un – Menter Rhieni Unigol (rhan o Potentia) (2001-2007)* | *£1,205,305* |

| | |
|---|---|
| *EQUAL Menter Gymunedol CYTGORD – Cau'r Bwlch Cyflog (2004-2007)* | *£150,430* |
| *Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Amcan Un – prosiect readySETgo: herio arwahanu galwedigaethol (2004-2007)* | *£567,904.00* |
| *Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cronfa Cydgyfeirio – Cenedl Hyblyg – hyrwyddo datblygiad gyrfa mewn cyflogaeth (2008 – 2014)* | *£12,534,361* |
| | ***£18,440,560*** |

**7. A yw'r sector preifat yng Nghymru wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r broses o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd?**

Na, nid ydym yn credu bod y sector preifat yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a ddarperir gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn arbennig o ran y sector preifat yn ymgymryd â rôl noddwr prosiect. Credwn fod y sector preifat yn cyfrannu mwy drwy gaffael.

Mae angen darparu gwybodaeth a chefnogi'r sector hwn yn well i fanteisio ar y ffrydiau ariannu hyn. Mae hyn yn her mewn perthynas â rheoliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu elw a meithrin gallu o fewn sefydliadau noddi.

**8. Yn 2009, llwyddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i negodi cynnydd yng nghyfraddau ymyrryd y rhaglenni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dwy raglen cydgyfeiriant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2010, nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu fod Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y De-orllewin wedi negodi cyfraddau ymyrryd uwch gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. A yw Cymru'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfraddau ymyrryd uwch hyn?**

Dylai Cymru drafod yr ymyrraeth orau bosibl a defnyddio hyn i gefnogi gweithgarwch prosiect a hyrwyddo canlyniadau, yn enwedig lle nad oes llawer o arian cyfatebol, os o gwbl, ar gael.

---

Am ragor o wybodaeth am Chwarae Teg, cysylltwch â


- Christine O'Byrne – christine.o'byrne@chwaraeteg.com




Awdur: CO'B
Dyddiad: 09/01/12

Chwarae Teg

- www.chwaraeteg.com

Chwarae Teg, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn. 02920 478900 / 01554 770612 / 07837 284677

---